# DAVIES, HUMFFREY (' Wmffre Dafydd ab Ifan '; fl. 1600?-64?), Llanbrynmair, bardd

**Enw:** Humffrey Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Menai Williams

fe'i disgrifir weithiau yn glochydd ac weithiau'n glerc y plwyf, sef clerc yr eglwys. Un o'r straeon mwyaf adnabyddus amdano yw honno am Wiliam Phylip, yn canu ei ' Cywydd y Bedd ' ar ôl ymweld â bedd Wmffre Dafydd ab Ifan; y mae'n bosibl, fodd bynnag, i'r bardd o Lanbrynmair oroesi'r bardd o Ardudwy, a fu farw yn 1669. Yn ei *Montgomeryshire worthies*, y mae Richard Williams yn dyfynnu'r cofnod hwn o gofrestr eglwys blwyf Llanbrynmair - 6 Humphredus filius D. D. Evan sepultus fuit 8vo die Julii Anno Dom. 1687' eithr yn awgrymu mai cofnod am farw rhyw blentyn sydd yma ac i'r bardd farw cyn 1663. Sylwer, serch hynny, fod ar gael un peth o'i waith sydd yn ymddangos yn perthyn i'r flwyddyn 1664. Dechreuodd ganu tua 1620 i'r Dr. John Davies, Mallwyd. Caneuon crefyddol eu natur ydyw mwyafrif gwaith Wmffre Dafydd - yn gywyddau, englynion, carolau, cerddi, a dyriau. Y mae ganddo un gân a thua 150 o englynion yn erbyn rhyfel.

## Awdur

**Menai Williams**

## Ffynonellau


Ffoulke Owens, *Cerdd-lyfr yr hwn sydd yn cynnwys amryw garolau, a dyrifau o waith amryw awdwyr* (Rhydychen 1686)

Thomas Jones, *Carolau a Dyriau Duwiol. Neu goreuon gwaith y prydyddion goreu yng Nghymru* (1696)

*Llawysgrif Bangor yng Ngholeg y Gogledd, Bangor* 758

*Gwyneddon Manuscript* 19

*Cardiff Manuscripts* 23, 48, 64, 66, 84

*Additional Manuscripts in the British Museum* 14873, 14888, 14890, 14987

*Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 17, 40

Archifau LlGC: Llanstephan MS 42: Poetry of Wmffre Dafydd ab Ifan and others

Archifau LlGC: Llanstephan MS 66: De Excidio Brittanie

*Llawysgrif Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 130

*Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 153, 195

*NLW MSS* 584, 672, 1244, 1580, 5269, 7191, 10249, 13169


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733210


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu